# Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth

# Ffurflen Gais Trwyddedu Gorfodol ac Ychwanegol

# Deddf Tai 2004 Rhan 2

**Mae trwyddedu tai amlfeddiannaeth yn sicrhau bod mathau penodol o eiddo rhent yn cwrdd â safonau angenrheidiol i sicrhau bod y tŷ yn ddiogel i'r meddianwyr a hefyd bod y landlord yn gymwys ac yn gymwysedig ac mai ef neu hi yw'r person mwyaf addas i'w reoli. Rhaid bod rhagofalon tân yn y tai a bod amwynderau'r gegin a'r ystafell ymolchi'n ddigonol ar gyfer nifer y meddianwyr. Bydd y Cyngor yn cymryd i ystyriaeth unrhyw gollfarnau troseddol sydd gan y landlord a gall wrthod caniatáu trwydded os nad ystyrir bod y landlord yn berson 'addas a phriodol'**

Atebwch bob un o'r cwestiynau'n ofalus a llofnodwch y datganiad sydd ar gefn y ffurflen. Os oes mwy nag un eiddo amlfeddiannaeth gennych, bydd arnoch angen cwblhau ffurflen gais ar wahân ar gyfer pob un ohonynt. Os na fydd digon o le i chi roi'ch atebion i gwestiwn, defnyddiwch dudalen barhad ac atodwch hi i'r cais gan nodi rhif yr adran arni y mae'r wybodaeth yn cyfeirio ato.

Cwblhewch y ffurflen yn ofalus ac mewn modd darllenadwy gan ddefnyddio inc du neu las a chyfeirio at y nodiadau esboniadol i'ch helpu i'w chwblhau. Rhydd y rhestr wirio ganlynol fanylion y dogfennau y mae'n **rhaid** eu darparu ar y cyd â'r ffurflen gais hon. (Ticiwch y blychau)

- ☐ **Ffi priodol**
- ☐ **Un llun maint pasbort (35mm x 45mm yn unig)**
- ☐ **Cofnod Diogelwch Nwy'r Landlord / neu**
- ☐ **Ffurflen Wirio Gosodiadau Nwy Landlord OFTEC CD/12**
- ☐ **Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydan BS7671:Rhan P**
- ☐ **Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC)**
- ☐ **Bras gynllun o'r eiddo**

**Atodwch lun y deiliad trwydded arfaethedig yn y fan hon**

**Rhaid** darparu'r dogfennau canlynol os ydynt ar gael ac yn berthnasol**:-**

- ☐ **Adroddiad Gosod/Arolygu a Gwasanaethu'r larwm dân**
- ☐ **Tystysgrif profi ac arolygu cyfnodol y goleuni argyfwng**
- ☐ **Asesiad Risgiau Diogelwch**
- ☐ **Tystysgrif Cwblhau'r Rheoliadau Adeiladu**
- ☐ **Cymeradwyaeth Cynllunio (i addasu neu newid defnydd i dŷ amlfeddiannaeth)**
- ☐ **Prawf PAT ar gyfer offer trydanol symudol**
- ☐ **Tystysgrif cynnal diffoddyddion tân**

Er defnydd y swyddfa'n unig

| Dyddiad dod i law | Ffi | Cyfeirnod |
|---|---|---|
| | | |

## 1. FFURFLEN GAIS TRWYDDEDU TAI AMLFEDDIANNAETH (DEDDF TAI 2004 RHAN 2)

1a. Cyfeiriad yr eiddo i'w drwyddedu______________________________________

_____________________________________________________________

_________________________________________Cod Post ______________

1b. Math o Gais Newydd ☐ Adnewyddu ☐

1c. Math o Gais Gorfodol ☐ Ychwanegol ☐

Dyddiad Cychwyn y Drwydded : _____________________________________

## 2. MANYLION YR YMGEISYDD (Person sy'n cwblhau'r ffurflen gais hon)

**Cwblhewch yr adran hon, os ydych yn cwblhau'r ffurflen ar ran y deiliad trwydded arfaethedig. Os mai chi yw'r deiliad trwydded arfaethedig, ewch i Adran 3.**

2a. Cyfenw ______________________ Enw(au) _______________________

Cyfeiriad _____________________________________________________

___________________________________________________________

___________________________________ Cod Post _________________

Dyddiad Geni ____________________ Man Geni ___________________

Manylion cyswllt

Rhif Ffôn Cartref ___________________ Rhif Ffôn Gwaith ________________

Rhif Ffôn Symudol ____________________

Cyfeiriad ebost ________________________________________________

2b. Beth yw'ch perthynas â'r deiliad trwydded arfaethedig? (ticiwch y blwch perthnasol).

Ffrind ☐ Perthynas ☐ Asiant ☐ Cyfreithiwr ☐

Arall (Rhowch fanylion) _______________________________________________

## 3. MANYLION Y DEILIAD TRWYDDED ARFAETHEDIG (person, busnes neu sefydliad y bydd eu henw ar y drwydded)

3a. Statws y deiliad trwydded arfaethedig.

Unigolyn neu unig fasnachwr ☐ Cwmni ☐ Partneriaeth ☐

Elusen neu Ymddiriedaeth ☐ Arall ____________________

3b. Os mai cwmni, elusen neu Ymddiriediaeth ydyw, rhowch fanylion:-

Enw'r busnes/sefydliad (os yw wedi'i gofrestru, defnyddiwch yr enw cofrestredig)

______________________________________________

Rhif Cofrestru (lle bo'n briodol) ____________________

3c. Enw'r deiliad trwydded arfaethedig (os mai cwmni ydyw, rhowch enw llawn y cwmni)

______________________________________________

Cyfeiriad ______________________________________

______________________________________________

______________________________ Cod Post ______________

Dyddiad Geni ________________ Man Geni ________________

Manylion cyswllt

Rhif Ffôn Cartref ________________ Rhif Ffôn Gwaith ________________

Rhif Ffôn Symudol ________________

Cyfeiriad ebost ______________________________

3d. Rhowch fanylion pob un o gyfarwyddwyr y cwmni a'r ysgrifennydd (os mai cwmni yw'r deiliad trwydded arfaethedig), pob un o'r partneriaid (os mai partneriaeth ydyw) a phob un o'r ymddiriedolwyr (os mai elusen neu ymddiriedaeth ydyw).

Enw a chyfeiriad ysgrifennydd y cwmni (lle bo'n berthnasol) ______________

______________________________________________

______________________________ Cod Post ______________

Enwau a chyfeiriadau a dyddiadau geni'r cyfarwyddwyr/partneriaid/ymddiriedolwyr (fel bo'n berthnasol)

1. ____________________________________________

______________________________________________

2. ____________________________________________

______________________________________________

3. ____________________________________________

## 4. RHEOLWR ARFAETHEDIG YR EIDDO I'W DRWYDDEDU

4a. Ai'r deiliad trwydded arfaethedig fydd rheolwr yr eiddo? Ie/Nage

Os nage, rhowch fanylion am y rheolwr.

Cyfenw ______________________ Enw(au) Cyntaf ______________________

Enw'r Busnes ______________________________________________________

Cyfeiriad (os mai sefydliad ydyw, rhowch y swyddfa gofrestredig neu gyfeiriad swyddogol arall)

_____________________________________________________________________

_____________________________________________________________________

________________________________________ Cod Post ____________________

Dyddiad Geni ______________________ Man Geni ______________________

Manylion cyswllt

Rhif Ffôn Cartref ______________________ Rhif Ffôn Gwaith __________________

Rhif Ffôn Symudol ______________________

Cyfeiriad Ebost ____________________________________

## 5. PERCHNOGAETH A RHEOLAETH YR EIDDO I'W DRWYDDEDU

5a. Ai'r deiliad trwydded arfaethedig sy'n berchen ar yr eiddo? Ie/Nage

5b. Ai'r deiliad trwydded arfaethedig sydd â rheolaeth dros yr eiddo? Ie/Nage
(h.y. bod hawl cyfreithiol ganddo i dderbyn incwm rhent yr eiddo).

5c. Ai'r deiliad trwydded arfaethedig sydd â'r pwerau angenrheidiol i reoli'r eiddo?
Gan gynnwys:-
- Ei roi ar osod i denantiaid a'u troi allan Ie/Nage
- Cael mynediad at bob rhan o'r eiddo Ie/Nage
- Rhoi awdurdod i unrhyw wariant angenrheidiol Ie/Nage

5d. Oes diddordeb cyfreithiol gan unrhywun arall yn yr eiddo Oes/Nac Oes
(e.e. fel rhydd-ddeiliad, lesddeiliad, darparwr morgeisi)?

Oes oes, rhowch fanylion yn Adran 5e.

5e. Rhowch fanylion am berchennog/perchnogion yr eiddo (**gan gynnwys eich darparwr morgeisi**), unrhywun arall sydd â diddordeb cyfreithiol yn yr eiddo a/neu unrhywun a gytunodd i fod yn rhwym wrth amodau'r drwydded (os bydd yn cael ei rhoi). Parhewch ar dudalen ar wahân, os bydd rhaid.

## 5. PERCHNOGAETH A RHEOLAETH YR EIDDO I'W DRWYDDEDU Parhad.

1. Buddiant yn yr Eiddo ___________________________________________

   Cyfenw __________________ Enw(au) Cyntaf _______________________

   Cyfeiriad (os mai sefydliad ydyw, rhowch y swyddfa gofrestredig neu gyfeiriad swyddogol arall)

   ____________________________________________________________

   _____________________________________Cod Post________________

   Dyddiad Geni ______________________ Man Geni _______________

   **Manylion Cyswllt**:

   Rhif Ffôn Cartref ___________________ Rhif Ffôn Gwaith _________________

   Rhif Ffôn Symudol ____________________

   **Cyfeiriad Ebost** _________________________________________________

2. Buddiant yn yr Eiddo ___________________________________________

   Cyfenw __________________ Enw(au) Cyntaf _______________________

   Cyfeiriad (os mai sefydliad ydyw, rhowch y swyddfa gofrestredig neu gyfeiriad swyddogol arall)

   ____________________________________________________________

   _____________________________________Cod Post________________

   Dyddiad Geni ______________________ Man Geni _______________

   **Manylion Cyswllt**:

   Rhif Ffôn Cartref ___________________ Rhif Ffôn Gwaith _________________

   Rhif Ffôn Symudol ____________________

   **Cyfeiriad Ebost** _________________________________________________

3. Buddiant yn yr Eiddo ___________________________________________

   Cyfenw __________________ Enw(au) Cyntaf _______________________

   Cyfeiriad (os mai sefydliad ydyw, rhowch y swyddfa gofrestredig neu gyfeiriad swyddogol arall)

   ____________________________________________________________

   _____________________________________Cod Post________________

   Dyddiad Geni ______________________ Man Geni _______________

   **Manylion Cyswllt**:

   Rhif Ffôn Cartref ___________________ Rhif Ffôn Gwaith _________________

   Rhif Ffôn Symudol ____________________

   **Cyfeiriad Ebost** _________________________________________________

## 6. PERSON ADDAS A PHRIODOL

6a. A yw unrhyw berson y'i enwir yn Rhannau 2, 3, 4 a 5 a/neu unrhyw berson cysylltiedig â hwy wedi gwneud y canlynol :-

1. Cyflawni trosedd sy'n cynnwys twyll neu unrhyw anonestrwydd arall (gan gynnwys twyll budd-daliadau), trais, cyffuriau neu unrhyw drosedd y'i rhestrir yn Atodlen 3 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (yn amodol ar Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974)? Do/Naddo
2. Gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail rhyw, lliw, hil, tarddiad ethnig neu genedlaethol neu anabledd neu mewn cysylltiad ag unrhyw fusnes? Do/Naddo
3. Mynd yn groes i unrhyw ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â thai, iechyd y cyhoedd, iechyd amgylcheddol neu gyfraith tenantiaid a landlordiaid? Do/Naddo
4. Cael trwydded wedi'i gwrthod o dan Ran 2 neu 3 Deddf Tai 2004? Do/Naddo
5. Cael trwydded wedi'i dirymu am dorri unrhyw amodau o dan Rannau 2 neu 3 Deddf Tai 2004? Do/Naddo
6. Mynd yn groes i unrhyw Gôd Ymarfer sy'n ymwneud â rheoli Tai Amlfeddiannaeth? Do/Naddo
7. Bod yn destun Gorchymyn Rheoli o dan Ddeddf Tai 1985 (yn y 5 mlynedd ddiwethaf)? Do/Naddo
8. Bod yn destun Gorchymyn Rheoli o dan Ddeddf Tai 2004? Do/Naddo

**Gweler y nodiadau esboniadol ar gefn y ffurflen am fwy o wybodaeth.**

9. Methu â chydymffurfio â Hysbysiad Tai Awdurdod Lleol (sy'n gofyn am waith etc)? Do/Naddo
10. Bod yn destun cwynion gan denantiaid neu ffynonellau eraill am dorri amodau trwydded o dan Ddeddf Tai 2004 mewn modd difrifol a thro ar ôl tro. Do/Naddo
11. Cael ei ddatgan yn fethdalwr? Do/Naddo

6b. Os do, rhowch fanylion y person(au) o dan sylw ynghyd â manylion llawn,

Gan gynnwys cyfeiriad yr eiddo o dan sylw, lle bo'n berthnasol:-

| Enw | Trosedd | Dedfryd | Dyddiad | Llys |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

______________________________________________________

______________________________________________________

______________________________________________________

______________________________________________________

## 7. MANYLION YR EIDDO I'W DRWYDDEDU

7a. Math o eiddo (Tŷ Amlfeddiannaeth neu dŷ)

Tŷ Amlfeddiannaeth ☐ Fflat Amlfeddiannaeth ☐

Bloc o fflatiau yr adeiladwyd at y diben ☐ Fflat meddiannaeth unigol ☐

Arall (rhowch fanylion) ______________________________

7b. Math o adeilad

Tŷ sengl ☐ Tŷ pâr ☐ Tŷ teras ☐

Tŷ ar ddiwedd rhes ☐ Preswyl a masnachol cymysg ☐

Tŷ cefn wrth gefn ☐ Strwythur wedi'i grwpio (annedd sy'n rhannu wal gydrannol mewn clwstwr neu o amgylch cwrt ☐

Arall (rhowch fanylion) ______________________________

______________________________

7c. Pryd yr adeiladwyd yr eiddo yn wreiddiol?

Cyn 1919 ☐ 1919-1945 ☐ 1946-1964 ☐ 1965-1980 ☐ Ar ôl 1980 ☐

7d. Sawl llawr sydd iddo (gan gynnwys y llawr daear, isloriau, addasiadau i'r atig a'r mesaninau).

Un ☐ Dau ☐ Tri ☐ Pedwar ☐ Pump ☐ Chwech ☐ Saith ☐

7e. Rhowch fanylion unrhyw ddefnydd masnachol e.e. siop ar y llawr daear, siop, bwyty, swyddfa.

______________________________

______________________________

7f. A yw'r eiddo i'w drwyddedu:-

Wedi'i adeiladu at y diben gyda'i gynllun presennol ☐
Wedi'i addasu o annedd breswyl flaenorol ☐
Wedi'i addasu o strwythur dibreswyl ☐
Os cafodd ei addasu, rhowch fras ddyddiad yr addasiad

______________________________

A oes dogfennau gennych sy'n tystio i ganiatâd cynllunio a/neu gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu i'r addasiad? Oes/Nac Oes

## 7. MANYLION YR EIDDO I'W DRWYDDEDU (parhad)

7g. A wnaethoch unrhyw welliannau neu atgyweiriadau i'r tŷ cyn cyflwyno'ch cais?
Do/Naddo

Os do, rhowch fanylion:-

______________________________________________________________

______________________________________________________________

Dihangfa ☐ Inswleiddio ☐ Amwynderau ☐ Diogelwch ☐

Arall (rhowch fanylion)____________________________________________

______________________________________________________________

## 8. GWYBODAETH AM FEDDIANNAETH/TENANTIAETH

8a. Sawl aelwyd ar wahân sy'n byw yn yr eiddo? Cyfeiriwch at y canllawiau am ddiffiniad o aelwyd.

Adeg gwneud cais ________________Uchafswm arfaethedig _________________

Sawl meddiannydd sy'n byw yn yr eiddo?

Cyfanswm y nifer adeg gwneud cais _________ Uchafswm arfaethedig_________

Nifer yr oedolion _____________________ Nifer y plant_____________________

8b. A oes landlord preswyl yno? Oes/Nac Oes

Faint o bobl sydd ar aelwyd y landlord? ______________________

Pa rannau o'r eiddo y mae aelwyd y landlord yn eu meddiannu? _____________

______________________________________________________________

______________________________________________________________

8c. Rhowch fanylion unrhyw drefniadau arlwyo ar gyfer meddianwyr yr eiddo (e.e. gwely a brecwast, pob pryd bwyd, hunanarlwyo

____________________________________________

______________________________________________________________

## 9. MANYLION Y LLETY

9a. Rhowch fanylion nifer yr unedau gosod yn yr eiddo. **Gweler y canllawiau am fwy o wybodaeth.**

| Manylion yr unedau | Cyfanswm y Nifer |
|---|---|
| Unedau gosod ar wahân yn yr eiddo (ystafelloedd neu unedau) | |
| Unedau gosod hunangynwysedig (fflatiau neu fflatiau un ystafell) | |
| Unedau heb fod yn hunangynwysedig (fflatiau neu fflatiau un ystafell) | |
| Unedau ag ystafelloedd cysgu | |

9b. Cwblhewch y tabl sydd ar dudalennau 10 a 11 gan roi manylion nifer yr ystafelloedd a'r cyfleusterau sydd ar gael yn yr eiddo.

9c. Rhowch fanylion am nifer yr ystafelloedd cyfanheddol yn y tŷ amlfeddiannaeth y gwneir y cais hwn ar ei gyfer (gan gynnwys yr holl ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd byw. Gweler y nodiadau esboniadol am geginau/ceginau bwyta).

9d. A oes gan bob un o'r ceginau'r canlynol:-

| | |
|---|---|
| - sinc â bwrdd diferu | Oes/Nac Oes |
| - modd o goginio bwyd | Oes/Nac Oes |
| - socedi trydan | Oes/Nac Oes |
| - wynebau gwaith i baratoi bwyd | Oes/Nac Oes |
| - cypyrddau fel storfeydd | Oes/Nac Oes |
| - oergell a rhewgist (neu adran rhewi) | Oes/Nac Oes |
| - cyfleusterau cadw sbwriel | Oes/Nac Oes |

9e Rhaid i'r Cyngor benderfynu faint o bobl a all fyw mewn Tŷ Amlfeddiannaeth. Gwneir y penderfyniad hwnnw yn ôl mesuriadau'r ystafelloedd cyfanheddol a'r amwynderau sylfaenol y darperir. Mae angen cynllun sylfaenol arnom o'r eiddo i wneud y penderfyniad hwnnw.

Os oes cynlluniau i raddfa gennych, darparwch hwy. Fel arall, gallwch wneud bras gynllun eich hun ar dudalen o bapur ar wahân.

Dangoswch yn glir leoliad pob ystafell wely, ystafell fyw, cegin ac ystafell ymolchi/tŷ bach. Hefyd, rhowch fanylion unrhyw ddrysau tân, ffenestri dianc, systemau synhwyro tân a mesuriadau ystafelloedd llawn pob un o'r waliau mewnol mewn medrau llinellol.

| **Math o Lawr** | **Math o Ystafell** | **Meddiann-wyr yr ystafell wely *** | **Maint yr Ystafell** | **Amwynderau a Chyfleusterau'r Ystafell (✓)** | | | | | | | **Rhagofalon Tân** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Awyru** | WHB/Sinc*** | *Dŵr Poeth/Oer**** * | Tŷ bach/toiled | Cawod | Bath | Gwres | Synhwyrydd / larwm mwg***** | Panel Rheoli / Cydgysylltiedig | Drws Tân******* | Blancedi Tân | Diffoddyddion Tân | Goleuni Argyfwng |
| *e.e..Islawr* | *Cegin* | *O + O etc* | *(mxm=m²)* | *NV* | *S* | *H* | WC | | | | *SD_M* | *IL* | *SS* | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| CYFANSWM | | | | | | | | | | | | | | | | |

*A = oedolyn, C = plentyn (o dan 12), M = gwryw, F = benyw
** NV = naturiol, MV = Mecanyddol
***WHB / S - sinc
***H = poeth, C = oer
*****SD = synhwyrydd tân , B = Batri, M = prif gyflenwad
******IL = cydgysylltiedig, CP = panel rheoli
******IL = cydgysylltiedig, CP = panel rheoli
*******SC = hunangaewyr, IS = stribiau chwyddedig, SS = seliau mwg

| Math o Lawr | Math o Ystafell | Meddiann-wyr yr ystafell wely * | Maint yr Ystafell | Amwynderau a Chyfleusterau'r Ystafell (✓) | | | | | | | Rhagofalon Tân | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Awyru** | WHB/Sinc*** | *Dŵr Poeth/Oer**** | Tŷ bach/toiled | Cawod | Bath | Gwres | Synhwyrydd / larwm mwg***** | Panel Rheoli / Cydgysylltiedig | Drws Tân******* | Blancedi Tân | Diffoddyddion Tân | Goleuni Argyfwng |
| *e.g.Basement* | *Kitchen* | *A + A etc* | *(mxm=m²)* | *NV* | *S* | *H* | WC | | | | *SD_M* | *IL* | *SS* | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| TOTAL | | | | | | | | | | | | | | | | |

*A = oedolyn, C = plentyn (o dan 12), M = gwryw, F = benyw

** NV = naturiol, MV = Mecanyddol

***WHB / S - sinc

***H = poeth, C = oer

*****SD = synhwyrydd tân , B = Batri, M = prif gyflenwad

******IL = cydgysylltiedig, CP = panel rheoli

******IL = cydgysylltiedig, CP = panel rheoli

*******SC = hunangaewyr, IS = stribiau chwyddedig, SS = seliau mwg

## 10. GWRES AC EFFEITHLONRWYDD YNNI

10a. Pa fath o wres sydd yn yr eiddo? (Ticiwch bob un perthnasol)

Gwres canolog nwy ☐ Gwres canolog trydan/gwresogyddion cadw dros nos ☐
Gwresogyddion/tanau nwy sefydlog ☐ Gwresogyddion/tanau trydan sefydlog ☐
Tanau tanwydd Solet ☐ Olew ☐ Arall ☐

Os mai arall yw'ch ateb, rhowch fanylion ________________________________

________________________________________________________________

10b. A oes gwres ym mhob un o ystafelloedd yr eiddo? Oes/Nac Oes
(ee. Rheiddiadur neu dân)
Os nad oes, rhowch fanylion.

________________________________________________________________

________________________________________________________________

10c. A oes awyru naturiol neu fecanyddol ym mhob ystafell ymolchi a chegin? Oes/Nac Oes

Os nad oes, rhowch fanylion.

________________________________________________________________

________________________________________________________________

10d. A yw'r ffenestri'n wydr dwbl? Pob un/rhai/dim un

10e. A yw gwagle'r to wedi'i inswleiddio? I gyd/rhywfaint/dim/ddim yn berthnasol

Os mai i gyd neu rywfaint yw'r ateb, rhowch fanylion, gan gynnwys tewdra'r inswleiddio mewn mm.

________________________________________________________________

________________________________________________________________

10f. A yw'r waliau ceudod wedi'u hinswleiddio? I gyd/rhywfaint/dim/ddim yn berthnasol
10g. A yw'r tanciau dŵr wedi'u lagio? I gyd/rhywfaint/dim/ddim yn berthnasol

10h. A oes Tystysgrif Perfformiad Ynni gan yr eiddo? Oes/Nac Oes

**DS Mae'n rhaid cyflwyno Tystysgrif Perfformiad Ynni gyda'r cais hwn**

## 11. NWY A THRYDAN

11a. A oes gan yr eiddo gyflenwad nwy? Oes/Nac Oes

**Gosodiadau Nwy**
Mae'n **rhaid** i chi gyflenwi copi o'r dystysgrif/tystysgrifau diogelwch nwy cyfredol gyda'r cais hwn sy'n cwmpasu pob cyfarpar nwy yn yr eiddo. (Mae'n ofynnol eich bod yn cael pob cyfarpar etc wedi'i wirio'n flynyddol gan beiriannydd Diogelwch Nwy cofrestredig).

11b. **Gosodiadau Trydan**
Mae'n **rhaid** i chi gyflenwi copi o Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydan cyfredol a boddhaol gyda'r cais hwn ar gyfer yr eiddo a hwnnw wedi'i gwblhau gan beriannydd trydanol cymwys. Ni dderbynnir tystysgrifau â diffygion côd 1 neu 2 arnynt fel rhai boddhaol..

11c. **Offer Trydanol**
Offer trydanol yw unrhyw gyfarpar symudol y darperir er defnydd y meddianwyr (e.e. tegell, oergell, sugnwr llwch)
A yw unrhyw un o'r offer hyn yn fwy na 12 mis oed? Ydynt/Nac Ydynt

Datganaf/datganwn fod unrhyw offer nwy a thrydan y darperir er defnydd y tenantiaid yn yr eiddo yn gweithio'n iawn ac yn ddiogel ac yn cydymffurfio â phob deddfwriaeth diogelwch berthnasol.

**Ymgeisydd**

Enw llawn ____________________________ Rhinwedd_____________________________

Llofnod ____________________________________ Dyddiad________________________

**Deiliad trwydded arfaethedig**

Enw llawn ____________________________ Rhinwedd_____________________________

Llofnod ____________________________________ Dyddiad________________________

**Rheolwr Arfaethedig**

Enw llawn ____________________________ Rhinwedd_____________________________

Llofnod ____________________________________ Dyddiad________________________

## 12. DIOGELWCH Y DODREFN

12. A ydych yn darparu dodrefn clustogol yn yr eiddo ar osod? YDW/NAC YDW

Os ydych, ydy'r dodrefn yn cydymffurfio â Rheoliadau (Diogelwch Tân) Deunyddiau Celfi 1988 YDYNT/NAC YDYNT

Datganaf/datganwn fod unrhyw ddodrefn y darperir er defnydd y tenantiaid yn yr eiddo yn gweithio'n iawn ac yn ddiogel ac yn cydymffurfio â phob deddfwriaeth diogelwch berthnasol.

**Ymgeisydd**

Enw llawn ____________________________Rhinwedd_____________________________

Llofnod _____________________________________ Dyddiad________________________

**Deiliad trwydded arfaethedig**

Enw llawn ____________________________Rhinwedd_____________________________

Llofnod _____________________________________ Dyddiad________________________

**Rheolwr Arfaethedig**

Enw llawn ____________________________Rhinwedd_____________________________

Llofnod _____________________________________ Dyddiad________________________

## 13. ACHREDIADAU A CHYMWYSTERAU

13a. A yw'r deiliad trwydded arfaethedig a/neu'r rheolwr :-

1. yn aelod o gynllun achredu eiddo neu landlordiaid? Ydy/Nac Ydy
2. yn aelod o gymdeithas landlordiaid? Ydy/Nac Ydy
3. yn aelod o gorff proffesiynol sy'n berthnasol i berchen ar a rheoli eiddo preswyl? Ydy/Nac Ydy
4. yn meddu ar unrhyw gymwysterau perthnasol Ydy/Nac Ydy

   neu unrhyw gyrsiau hyfforddiant sy'n berthnasol i berchen ar a rheoli eiddo preswyl?

Os ydy, rhowch fanylion (ychwanegwch dudalen ychwanegol, lle bo rhaid):-

| Enw'r person | Sefydliad/Cynllun/Corff Dyfarnu | Rhif Aelodaeth / Cymhwyster |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

## 14. RHEOLI'R EIDDO I'W DRWYDDEDU

14a. A yw'r meddianwyr yn cael cytundeb tenantiaeth (neu ddatganiad ysgrifenedig arall sy'n rhoi telerau'r feddiannaeth)? Mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi gyflwyno copi o'r ddogfen hon gyda'ch cais. Ydynt/Nac Ydynt

14b. A yw datganiad ysgrifenedig y telerau yn cynnwys unrhyw gymalau am ymddygiad anghymdeithasol? Ydy/Nac Ydy

14c. A yw datganiad ysgrifenedig y telerau yn cynnwys canllawiau ar y gweithdrefnau i denantiaid roi gwybod am atgyweiriadau angenrheidiol a chwyno am yr eiddo? Ydy/Nac Ydy

14d. A oes angen ernes ar ddechrau tenantiaeth newydd? Oes/Nac Oes

14e. A yw telerau ernes y denantiaeth wedi'u hamlinellu'n glir yn ysgrifenedig? Ydynt/Nac Ydynt

14f. A yw'r deiliad trwydded arfaethedig neu'r rheolwr yn aelod o unrhyw gynllun yr awdurdodir gan y llywodraeth sy'n diogelu ernesau tenantiaid? Ydy/Nac Ydy

Os ydy, rhowch fanylion darparwr y cynllun a chyfeirif y landlord.

_______________________________________________

## 15. RHEOLI'R EIDDO I'W DRWYDDEDU

15g. A yw'r tenantiaid yn cael llyfr rhent? Ydynt/Nac Ydynt

15h. A yw'r tenantiaid yn cael derbynneb am daliadau rhent? Ydynt/Nac Ydynt

15i. Rhowch fanylion unrhyw weithdrefnau/trefniadau sydd gennych i:-

Fetio darpar denantiaid (e.e. defnyddio gwasanaeth fetio neu gynllun achredu, holi am dystlythyrau etc)

__________________________________________________________

__________________________________________________________

Sicrhau bod yr eiddo'n lân, yn ddiogel ac yn addas i fyw ynddo cyn pob tenantiaeth newydd.

__________________________________________________________

__________________________________________________________

Cytuno ar restr eiddo gyda phob tenant sy'n manylu'r dodrefn a'r offer y cyflenwir, gan gynnwys cyflwr yr eitemau unigol.

__________________________________________________________

__________________________________________________________

Adolygu cyflwr cyffredinol yr eiddo (mewnol, allanol, yr ardd etc) yn ddigon rheolaidd i sicrhau ei fod yn cael ei gynnal mewn cyflwr da a diogel.

__________________________________________________________

__________________________________________________________

Ymdrin ag atgyweiriadau a chwynion y rhoddwyd gwybod amdanynt cyn pen cyfnod rhesymol o amser.

__________________________________________________________

__________________________________________________________

Rhychwantu'r gost o wneud gwaith trwsio neu welliannau pwysig i'r eiddo mewn argyfwng.

__________________________________________________________

__________________________________________________________

Derbyn ac ymateb i gwynion am ymddygiad anghymdeithasol sy'n ymwneud â ac sy'n effeithio ar y tenantiaid a/neu eu plant neu ymwelwyr.

__________________________________________________________

__________________________________________________________

## 15. RHEOLI'R EIDDO I'W DRWYDDEDU (Parhad)

15j A wnaed asesiad risgiau diogelwch tân? DO/NADDO

Mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi gyflwyno copi o'r asesiad risgiau tân gyda'r cais hwn, os bydd ar gael.

15k Rhowch fanylion llwybrau'r dihangfeydd tân yn eich eiddo a'r modd y sicrhewch y'u cedwir yn glir________________________________________

____________________________________________________

____________________________________________________

15l Rhowch fanylion unrhyw wybodaeth neu hyfforddiant am ddiogelwch tân y darparwyd i feddiannwyr yr eiddo______________________________

____________________________________________________

____________________________________________________

15m A wasanaethwyd yr offer diogelwch tân yn y 12 mis diwethaf? DO/NADDO

Datganaf/datganwn fod y larymau/synwyryddion mwg a gwres y gosodwyd yn y tŷ, fel y'u disgrifir ar y ffurflen hon, yn gweithio'n iawn ac yn ddiogel ac yn cydymffurfio â phob deddfwriaeth diogelwch berthnasol.

**Ymgeisydd**

Enw llawn ______________________Rhinwedd______________________

Llofnod ___________________________ Dyddiad___________________

**Deiliad trwydded arfaethedig**

Enw llawn ______________________Rhinwedd______________________

Llofnod ___________________________ Dyddiad___________________

**Rheolwr Arfaethedig**

Enw llawn ______________________Rhinwedd______________________

Llofnod ____________________________ Dyddiad___________________

## 16. EIDDO ARALL SY'N DRWYDDEDADWY O DAN DDEDDF TAI 2004

16a. A yw'r deiliad trwydded arfaethedig a/neu'r rheolwr yn rheoli eiddo arall sydd angen trwydded o dan Ddeddf Tai 2004? Ydy/Nac Ydy
Os nad ydy, ewch i gwestiwn rhif 17.

Os ydy, rhowch y wybodaeth ganlynol:-

16b. Nifer yr eiddo yn ardal yr awdurdod hwn_______________________________

A ddarparwyd manylion am yr eiddo hwn mewn cais blaenorol am drwydded? Do/Naddo

Cyfeirif y drwydded neu'r cais blaenorol ________________________

Rhowch fanylion pob un o'r eiddo:- (Parhewch ar dudalen ar wahân, lle bo rhaid)

| **Cyfeiriad** | **A drwyddedwyd yr eiddo (√)** | **Cyfeirif** |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

16c. Nifer yr eiddo y tu allan i ardal yr awdurdod hwn___________________________

A ddarparwyd manylion am yr eiddo hwn mewn cais blaenorol am drwydded? Do/Naddo

Cyfeirif y drwydded neu'r cais blaenorol ________________________

Rhowch fanylion pob un o'r eiddo:- (Parhewch ar dudalen ar wahân, lle bo rhaid)

| **Cyfeiriad** | **A drwyddedwyd yr eiddo (√)** | **Cyfeirif** |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

## 17. HYSBYSU POBL AM Y CAIS AM DRWYDDED

**Hysbysu'r holl bartïon perthnasol**

Mae'n rhaid i chi roi gwybod yn ysgrifenedig i bobl benodol eich bod wedi gwneud cais am Drwydded Amlfeddiannaeth o dan Ran 2 Deddf Tai 2004, sef:

- Unrhyw forgeisai'r eiddo
- Unrhyw berchennog ar yr eiddo, os nad chi yw hwnnw
- Unrhyw berson arall sy'n denant neu'n lesddeiliad hir yr eiddo neu unrhyw ran ohono ar wahân i denant statudol neu denant arall lle bo'i brydles neu ei denantiaeth am lai na thair blynedd (gan gynnwys tenantiaeth gyfnodol)
- Y deiliad trwydded arfaethedig, os nad chi yw hwnnw
- Yr asiant rheoli arfaethedig, os nad chi yw hwnnw
- Unrhyw berson a gytunodd i fod yn rhwym wrth unrhyw amodau yn y drwydded, os bydd yn cael ei rhoi

Rhaid i chi roi gwybod yn ysgrifenedig i bob un o'r bobl hyn eich bod yn gwneud cais am drwydded Tŷ Amlfeddiannaeth a chynnwys:

- Eich enw, cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad ebost (os oes yna un), ffacs (os oes yna)
- Manylion cyswllt yr ymgeisydd/deiliad trwydded arfaethedig
- Cyfeiriad y Tŷ Amlfeddiannaeth
- Enw a chyfeiriad yr Awdurdod Tai Lleol y mae'r cais i gael ei wneud iddo
- Y dyddiad pryd y cyflwynir y cais

Fel arall, gallwch anfon neu roi copi iddynt o'r ffurflen gais wedi'i chwblhau.

## 17. **HYSBYSU POBL AM Y CAIS AM DRWYDDED** Parhad

**Cwblhewch y tabl isod a llofnodwch y datganiad.**

Datganaf/datganwn fy mod/ein bod wedi cyflwyno hysbysiad i'r bobl ganlynol, sef yr unig bobl y gwyddaf/gwyddom amdanynt y mae angen rhoi gwybod iddynt fy mod/ein bod wedi gwneud y cais hwn. Os nad oes dim partïon buddiannol eraill, rhowch 'dim un' yn y tabl a llofnodwch y datganiad.

| Enw | Cyfeiriad | Buddiant y person yn yr eiddo neu'r cais | Dyddiad y gwasanaeth |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

| | |
|---|---|
| **Llofnod** | |
| **Llythrennu'r Enw** | |
| **Rhinwedd** | |
| **Dyddiad** | |

## 18. MANYLION YCHWANEGOL

18a. Rhowch unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen neu sy'n berthnasol i'ch cais.

**Parhewch ar dudalen ar wahân, lle bo rhaid.**

## 19. DATGANIADAU

Datganaf/datganwn fod y wybodaeth sydd yn y cais hwn yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth/ein gwybodaeth.

Deallaf/deallwn fy mod yn troseddu os rhoddaf/rhoddwn unrhyw wybodaeth i awdurdod tai lleol mewn perthynas ag unrhyw un o'i swyddogaethau o dan Rannau 1 i 4 Deddf Tai 2004 sy'n anwir neu'n gamarweiniol ac y gwyddaf ei bod yn anwir ac yn gamarweiniol neu fy mod/ein bod yn ddi-hid ynglŷn ag a ydyw'n anwir neu'n gamarweiniol.

Datganaf/datganwn fy mod/ein bod wedi rhoi gwybod i'r bobl y'u rhestrir yn Adran 18 uchod am y cais hwn ac mai'r rhain yw'r unig bobl y gwyddaf/gwyddom amdanynt sydd angen eu hysbysu fy mod wedi gwneud y cais hwn.

Datganaf/datganwn fod adnoddau ariannol digonol ar gael i gynnal yr eiddo gan sicrhau iechyd a diogelwch y tenantiaid a bodloni'r holl rwymedigaethau statudol eraill.

Deallaf/deallwn y gallai fod angen i'r Cyngor wneud ymchwiliadau i asesu a wyf/ydym yn berson "addas a phriodol" at ddibenion Rhan 2 Deddf Tai 2004. Awdurdodaf y Cyngor yn hyn o beth i wneud y fath ymholiadau a rhannu gwybodaeth fel y gwelo'n dda. Gallai'r fath ymholiadau gynnwys gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a chysylltu â'r Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Awdurdodau Lleol eraill.

**Ymgeisydd**

Enw llawn ___________________________Rhinwedd____________________________

Llofnod ___________________________________ Dyddiad________________________

**Deiliad trwydded arfaethedig**

Enw llawn ___________________________Rhinwedd____________________________

Llofnod ___________________________________ Dyddiad________________________

**Rheolwr Arfaethedig**

Enw llawn ___________________________Rhinwedd____________________________

Llofnod ___________________________________ Dyddiad________________________

## Hysbysu Cais am Drwydded Tŷ Amlfeddiannaeth Gorfodol/Ychwanegol

Rheoliadau Trwyddedu (Tai Amlfeddiannaeth a Thai Eraill) (Ceisiadau, Cyhoeddi Safonau Dynodiadau a Chadw Cofrestrau) 2006.

Mae'r rheoliadau uchod yn ei gwneud yn ofynnol fy mod yn rhoi gwybod i chi bod cais wedi'i wneud neu y bydd cais yn cael ei wneud am drwydded o dan Ran 2 Deddf Tai 2004 parthed:

Eiddo i'w drwyddedu ___________________________________________

| | |
|---|---|
| **Deiliad Trwydded Arfaethedig** | Enw<br><br>Cyfeiriad<br><br><br>Rhif ffôn<br>Ebost |
| **Person sy'n cwblhau'r ffurflen gais (os yw'n wahanol i'r deiliad trwydded arfaethedig).** | Enw<br><br>Cyfeiriad<br><br><br>Rhif ffôn<br>Ebost |
| **Rheolwr Arfaethedig** | Enw<br><br>Cyfeiriad<br><br><br>Rhif ffôn<br>Ebost |
| **Awdurdod Tai Lleol y Gwnaed Cais iddo:-** | **Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, Lles y Gymuned<br>Cyngor Sir Ceredigion<br>Canolfan Rheidol<br>Aberystwyth<br>Ceredigion<br>SY23 3UE** |
| **Dyddiad y cais am dŷ amlfeddiannaeth** | |
| **Llofnod** | |
| **Dyddiad** | |

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am drwyddedu tai amlfeddiannaeth yng Ngheredigion, cysylltwch â Gwasanaeth Lles y Gymuned yn y cyfeiriad uchod neu ebostiwch ni ar housing@ceredigion.gov.uk neu ymwelwch â'n gwefan, sef www.ceredigion.gov.uk

# Nodiadau Esboniadol i gwblhau'r ffurflen gais

## Rhan 1

**Trwyddedu Gorfodol**

Mae gofyn cyfreithiol arnoch i drwyddedu'ch eiddo fel Tŷ Amlfeddiannaeth os oes iddo 3 neu fwy o loriau a bod 5 neu fwy o bobl yn ei feddiannu gan ffurfio 2 neu fwy o aelwydydd.

**Trwyddedu Ychwanegol**

Ers 14 Ebrill 2014, yn amodol ar eithriadau penodol, mae pob eiddo rhent o fewn yr ardaloedd dynodedig ar y map atodedig lle bo **3 neu fwy o denantiaid** sydd heb fod o'r un aelwyd yn cymhwyso fel tŷ amlfeddiannaeth a bydd angen ei drwyddedu o dan Gynllun Trwyddedu Ychwanegol y Cyngor – gweler y map atodedig yn Atodiad A am y Wardiau sy'n destun y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol.

Ystyrir adeiladau sy'n gyfangwbl ar ffurf fflatiau hunangynwysedig yn eiddo sengl a rhaid cael Trwydded Tŷ Amlfeddiannaeth lle nad ydynt naill ai:

- Wedi'u hadeiladu at y diben; neu
- Wedi'u haddasu hyd at safonau Rheoliadau Adeiladu 1991 (gweler Deddf Tai 2004 Adran 257).

Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â'r gofynion i drwyddedu eich eiddo, cysylltwch â ni yn y swyddfa uchod neu ffoniwch 01545 572181 a gofynnwch am siarad ag un o'r swyddogion.

## Rhan 2

Os mai chi yw'r sawl sy'n llenwi'r ffurflen gais hon, wedyn chi yw'r 'ymgeisydd'. Fel ymgeisydd, rhaid i chi gwblhau pob rhan o'r ffurflen gais a llofnodi'r datganiad ar ddiwedd y ffurflen i gadarnhau bod y wybodaeth y darparoch yn gywir hyd eithaf eich gwybodaeth.

Y 'deiliad trwydded arfaethedig' yw'r sawl fydd â'i enw ar y drwydded (os bydd yn cael ei rhoi). Y person mwyaf addas i feddu ar drwydded yr eiddo ddylai fod yn ddeiliad trwydded arfaethedig, sef yn ôl tebygolrwydd y sawl sy'n derbyn rhent yr eiddo.

Fel yr ymgeisydd, rhaid i chi roi'ch :-

- Enw;
- Cyfeiriad gohebiaeth;
- Manylion cyswllt; a
- Nodi'ch perthynas â'r deiliad trwydded arfaethedig a'ch buddiant yn yr eiddo trwyddedadwy.

Eich buddiant yn yr eiddo trwyddedadwy yw eich cysylltiad neu'r rhan y chwaraewch yn yr eiddo trwyddedadwy sydd, fel arfer, o natur gyfreithiol, megis rhydd-ddeiliad, lesddeiliad, asiant rheoli.

## Rhan 3

Fel yr ymgeisydd, rhaid i chi roi manylion y deiliad trwydded arfaethedig, fel a ganlyn:-

- Math o ddeiliad trwydded arfaethedig;
- Enw;
- Cyfeiriad gohebiaeth;
- Manylion cyswllt.

Os mai cwmni yw'r deiliad trwydded arfaethedig, rhaid i chi roi cyfeiriad y swyddfa gofrestredig ac enwau ysgrifennydd a chyfarwyddwyr y cwmni.

Os mai partneriaeth neu ymddiriedaeth yw'r deiliad trwydded arfaethedig, rhaid i chi roi enwau pob un o'r partneriaid a'r ymddiriedolwyr.

## Rhan 4

Os nad yw'r deiliad trwydded arfaethedig yn rheoli'r eiddo, atebwch 'Nage' i'r cwestiwn cyntaf a chwblhewch fanylion y person neu'r sefydliad sy'n gyfrifol am ei reoli, gan gynnwys y manylion canlynol:-

- Enw
- Cyfeiriad
- Manylion cyswllt

## Part 5

Gall 'rhydd-ddeiliad' fod yn berson (neu bersonau) neu gwmni sydd wedi'i gofrestru yn berchennog ar ystad rhydd-ddaliadol yn y tir gyda theitl llwyr.

Mae 'lesddeiliad' yn rhywun sy'n berchen ar brydles hir ar eu heiddo (fel arfer am gyfnod o fwy na 21 mlynedd) sy'n rhoi hawl meddiannaeth iddynt a defnydd ar yr eiddo am gyfnod y brydles.

Gallai 'person sy'n rhwym wrth amodau'r drwydded' fod yn unrhyw berson sydd â rhan yn y broses o reoli a/neu gynnal a chadw'r eiddo. Hefyd, bydd hyn yn dibynnu ar amodau'r drwydded.

## Rhan 6

Cyn rhoi trwydded tŷ amlfeddiannaeth, rhaid i'r Cyngor fod wedi'i fodloni bod y deiliad trwydded, y rheolwr ac unrhyw berson arall sydd â rhan yn y broses o reoli'r tŷ amlfeddiannaeth yn addas a phriodol. Felly, nod y rhan hon o'r ffurflen yw casglu gwybodaeth am yr holl bobl y'u henwir yn rhannau 2, 3, 4 a 5 neu unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â'r eiddo i'n galluogi i benderfynu hynny. Rhaid datgan tramgwyddau a chollfarnau heb ddarfod er diben llunio'r farn hon. Ni fydd ateb 'do' i unrhyw un o'r cwestiynau o angenrheidrwydd yn golygu y bydd y Cyngor yn gwrthod cyhoeddi trwydded. Serch hynny, mae hawl gan y Cyngor wrthod unrhyw berson yr enwebir yn ddeiliad trwydded arfaethedig os nad ystyrir eu bod yn addas a phriodol.

**DS. Gall personau cysylltiedig gynnwys rhieni, priod, siblingiaid, plant, partneriaid busnes, gweithwyr cynnal a chadw etc. Bydd y Cyngor yn ystyried hanes troseddol unrhyw bersonau cysylltiedig ac mae'n bosib y bydd yn gwrthod rhoi trwydded os bydd yn teimlo ei bod yn debygol y bydd gan berson cysylltiedig sydd â chollfarnau perthnasol ran sylweddol i'w chwarae yn y broses o weithredu a rheoli eiddo trwyddedadwy.**

## Rhan 7

'Amlfeddiannaeth' yw lle na fo'r holl feddiannwyr yn rhan o'r un teulu.

Mae 'fflatiau hunangynwysedig' yn fangreoedd hunangynwysedig ac ar wahân.

Mae 'Wedi'i grwpio' yn golygu annedd sy'n rhannu wal gydrannol mewn clwstwr neu o amgylch cwrt.

## Rhan 8

Mae 'aelwyd' er dibenion Deddf Tai 2004 ar ffurf:-

- Person sengl; neu
- Barau sy'n cyd-fyw (ni waeth a ydynt o'r rhyw arall ai peidio); neu
- Deulu, gan gynnwys rhieni, tadcuod, mamguod, plant (gan gynnwys plant maeth, llysblant a phlant sy'n derbyn gofal), wyrion, wyresau, brodyr, chwiorydd, ewythrod, modrybedd, neiaint, nithod neu gefnderod. Ystyrir hanner perthnasau yn berthnasau llawn. Hefyd, cynhwysir staff domestig ar yr aelwyd os ydynt yn byw mewn llety di-rent a ddarperir gan y person y maent yn gweithio iddo.

Felly, ystyrir 3 ffrind sy'n rhannu gyda'i gilydd yn 3 aelwyd oherwydd nad ydynt yn perthyn i'w gilydd fel teulu. Os yw pâr yn rhannu â thrydydd person, byddai hynny'n 2 aelwyd.

Os bydd teulu'n rhentu eiddo, aelwyd sengl yw honno. Petai gan deulu *au pair* i ofalu am eu plant, byddai'r person hwnnw yn cael ei gynnwys ar eu haelwyd.

Person yw '**meddiannydd**' sy'n meddiannu'r eiddo fel preswylfa; gall y person hwnnw fod naill ai yn denant, yn lesddeiliad, yn drwyddedai neu'n berson sydd ag ystad neu fuddiant yn yr eiddo.

Hefyd, ystyrir plant a babanod yn feddiannwyr a dylid eu cyfrif fel un unigolyn.

## Rhan 9

9a
Mae '**uned ar osod**' ar wahân yn unrhyw uned lety rhent sydd ar osod ar gontractau tenantiaeth ar wahân neu i aelwydydd ar wahân. Gallai fod yn:-

• Ystafell/fflat un ystafell • Stiwdio • Fflat
• llawr wrth lawr ar osod etc. • Tŷ

Mae **uned hunangynwysedig ar osod** yn uned lle mai dim ond y meddianwyr sy'n defnyddio'r gegin, y bath/y gawod a'r tŷ bach. Mae **uned ar osod sydd heb fod yn hunangynwysedig** yn un lle bo'r meddianwyr yn rhannu defnyddio'r gegin, y bath/y gawod a/neu'r tŷ bach. **Uned ag ystafell gysgu** yw un lle bo'r meddianwyr yn rhannu defnyddio'r cyfleusterau, gan gynnwys y man cysgu.

Rhaid i chi gwblhau'r gridiau gan roi manylion am nifer pob un o'r cyfleusterau sydd yn yr eiddo a'r unedau unigol ar osod.

9b
Yn y tabl ar dudalennau 10 ac 11 ar y ffurflen, mae'n rhaid i chi roi gwybodaeth am yr amwynderau a'r darpariaethau diogelwch tân sydd yn yr eiddo y mae angen ei drwyddedu. Maent yn cynnwys systemau synhwyro tân a goleuni argyfwng ynghyd â rhagofalon tân eraill megis drysau tân, dihangfa wedi'i diogelu (h.y. grisiau, pen grisiau etc). Ticiwch y blychau priodol ar y ffurflen i nodi pa fesurau diogelwch tân sydd yna yn yr eiddo.

Dylai fod llwybr dianc diogel ym mhob tŷ amlfeddiannaeth rhag ofn y bydd tân a rhagofalon tân digonol a allai gynnwys larymau tân, synwyryddion mwg a gwres, goleuni argyfwng, diffoddyddion tân a blancedi tân. Rhaid cynnal y rheini'n dda a bod yn ddigonol ar gyfer nifer y preswylwyr a maint yr eiddo.

Lle y darperir **'offer diogelwch tân'** megis diffoddyddion a blancedi tân, rhaid eu gwirio'n gyfnodol a rhaid darparu'r math cywir o ddiffoddydd. Fel canllaw gyffredinol, dylai fod diffoddydd powdwr sych 2kg neu sbwng 6 litr AFFF amlbwrpas ar bob llawr o fewn y ddihangfa gymunedol. Mae hyn yn ofyniad mewn tai sydd wedi'u rhannu'n fflatiau neu'n unedau un ystafell ac argymhellir hyn ar gyfer pob eiddo

9c
Mae '**Sinciau**' yn golygu sinciau ceginau, ac nid basnau ymolchi dwylo.

## Rhan 11

**Gosodiadau Nwy**
Mae'n **rhaid** i chi gyflenwi copi o'r dystysgrif/tystysgrifau diogelwch nwy cyfredol gyda'r cais hwn sy'n cwmpasu pob cyfarpar nwy yn yr eiddo. (Mae'n ofynnol eich bod yn cael pob cyfarpar etc wedi'i wirio'n flynyddol gan beiriannydd cofrestredig).

**Gosodiadau Trydan**
Mae'n **rhaid** i chi gyflenwi copi o Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydan cyfredol a boddhaol gyda'r cais hwn ar gyfer yr eiddo a hwnnw wedi'i gwblhau gan beriannydd trydanol cymwys. Ni dderbynnir tystysgrifau â diffygion côd 1 neu 2 arnynt fel rhai boddhaol.

## Rhan 12

Mae **Rheoliadau Diwygio (Diogelwch Tân) Deunyddiau Celfi 1993** yn gosod lefelau gwrthsefyll tân ar gyfer dodrefn domestig clustogol, deunyddiau celfi a chynhyrchion eraill sy'n defnyddio clustogwaith. Rhaid bod deunydd llenwi sy'n gwrthsefyll tân mewn dodrefn clustogol a rhaid iddynt lwyddo mewn prawf gwrthsefyll sigarennau a rhaid i'r gorchuddion parhaol lwyddo mewn prawf gwrthsefyll matsis. Bydd disgwyl i unrhyw landlordiaid sy'n rhoi eiddo preswyl ar osod sicrhau bod unrhyw ddodrefn meddal yn cydymffurfio â'r rheoliadau hyn.

Mae'r '**dodrefn clustogol**' sydd o fewn cwmpas y rheoliad uchod yn cynnwys : gwelyau, pennau gwelyau, matresi, gwelyau soffa, celfi meithrinfeydd, celfi gerddi y gellir eu defnyddio o dan do, dodrefn mewn carafannau newydd, mân glustogau, padiau seddau a chlustogau ynghyd â gorchuddion rhydd ac ymestyn ar gyfer dodrefn. Dylech fod yn chwilio am ddodrefn sydd wedi'u labelu'n gywir i nodi eu bod yn cwrdd â gofynion y rheoliadau.

## Rhan 13

Mae achredu yn golygu bod landlordiaid preifat yn cydymffurfio'n wirfoddol â safonau da o ran cyflwr a rheolaeth eu heiddo ynghyd â'u perthynas â'u tenantiaid. Mae cynghorau lleol, Sefydliadau Addysg Uwch, a'u hasiantau ynghyd â Chymdeithasau Landlordiaid yn cynnal cynlluniau achredu. I gael mwy o wybodaeth am gynllun yr ardal hon, gweler **http:/www.welshlandlords.org.uk.**
Mae'r 'Gymdeithas Landlordiaid' yn cyfeirio at gorff a ffurfiwyd yn gyfreithiol sy'n rheoleiddio ymddygiad ei aelodau ac sy'n cynrychioli eu buddiannau. Gall cyrff proffesiynol perthnasol eraill gynnwys y Gwasanaethau Ombwdsmon Tai a rhai sy'n cwmpasu eiddo tirol megis rhoi eiddo ar osod neu dirfesur. Gallai cyrff diwydiannol sy'n cwmpasu'r masnachoedd adeiladu hefyd fod yn berthnasol os oes ganddynt sgiliau perthnasol i reoli a chynnal a chadw cartrefi tenantiaid.

## Rhan 14

Bydd yn rhaid i chi gyflwyno copi o Asesiad Risgiau Diogelwch Tân yr eiddo os bydd yr eiddo'n dod o dan gwmpas Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Gallai hyn gynnwys unedau un ystafell a fflatiau yr adeiladwyd at y diben a llety myfyrwyr y codwyd at y diben (gan gynnwys sefyllfaoedd lle bo landlordiaid gwahanol yn berchen ar aneddau o fewn y bloc). Mae'n bosib y bydd hefyd yn rhaid i chi gyflwyno Asesiad Risgiau Diogelwch Tân os ystyrir bod hynny'n briodol ar ôl i swyddog ymweld â'ch eiddo a gwneud archwiliad trwyddedu llawn.

Dyfeisir **'system goleuni argyfwng' i** oleuo llwybr y ddihangfa'n awtomatig yn sgîl methiant y cyflenwad i'r goleuni artifisial arferol.

## Rhan 17

Mae'n rhaid i chi gwblhau Rhan 17 drwy ddefnyddio'r gwagle y darperir i restru enwau, cyfeiriadau a disgrifiadau (e.e lesddeiliad, morgeisai etc) pawb y mae angen iddynt wybod bod cais am drwydded tŷ amlfeddiannaeth wedi'i wneud. Mae'r bobl y mae angen arnynt wybod fel a ganlyn:-

• Unrhyw berchennog ar yr eiddo y mae'r cais yn cyfeirio ato (os nad chi yw hwnnw) h.y. y rhydd-ddeiliad ac unrhyw brif leswyr y gwyddoch.

• Unrhyw ddarparwr morgeisi ar gyfer yr eiddo sydd i'w drwyddedu.

• Unrhyw berson arall sy'n denant neu'n lesddeiliad hir ar yr eiddo neu unrhyw ran ohono (gan gynnwys unrhyw fflat) y gwyddoch amdano ar wahân i denant statudol neu denant arall sydd â les neu denantiaeth am lai na 3 blynedd (gan gynnwys tenantiaeth gyfnodol).

• Y deiliad trwydded arfaethedig (os nad chi yw hwnnw).

• Yr asiant rheoli arfaethedig (oes oes yna un) (os nad chi yw hwnnw).

• Unrhyw berson a gytunodd i fod yn rhwym wrth unrhyw amodau yn y drwydded, os bydd yn cael ei rhoi.

Os bydd angen mwy o le arnoch i gwblhau Rhan 18, parhewch ar dudalen bapur ychwanegol, gan sicrhau eich bod yn rhifo'r tudalennau'n eglur ac yn eu hatodi'n ddiogel wrth y ffurflen.

## RHESTR WIRIO

Rhaid i chi sicrhau eich bod yn cyflwyno'r **holl** ddogfennau angenrheidiol y rhestrir yn rhan gyntaf y rhestr wirio ar du blaen y ffurflen gais hon gyda'r ffurflen gais a honno wedi'i chwblhau. Bydd peidio â chyflwyno'r dogfennau hynny'n gwneud y ffurflen gais yn anghyflawn ac ni fydd yn cael ei phrosesu.